


CRONFA RAGORIAETH CONWY

“Cynorthwyo i gyrraedd eithafoedd newydd mewn Gallu Artistig, Addysgol a Chwaraeon”

1. Yr Aelod Cabinet dros Addysg, Sgiliau a Chyflogaeth ar y cyd â Gweithgor Cronfa Ragoriaeth Conwy sy'n penderfynu ar geisiadau mewn cyfarfodydd sydd i'w cynnal yn Aelod rheolaidd.
2. Gwahoddir ceisiadau oddi wrth unigolion sydd wedi bod yn preswyllo'n barhaol yng Nghonwy am y 5 mlynedd diwethaf neu ragor ac sy'n **breswylwyr parhaol** yng Nghonwy pan gyflwynir y cais.
3. Oni nodir yn wahanol, dyfernir unrhyw grant am 2 flwyddyn ariannol yn unig. Dylid nodi bydd ffurflenni cais ond yn cael eu hanfor allan ar eich cais, ac nid yn awtomatig. Mae grantiau'n amrywio rhwng £100 a £800
4. Oni bai y nodir yn wahanol, dim ond 1 flwyddyn ariannol yn unig y dyfernir y grant. Dylid nodi mai dim ond ar gais y bydd ffurflen cais yn cael eu hanfor allan ac nid yn awtomatig.
5. Ni fydd arian yn cael ei dalu ar gyfer ffioedd cyrsiau llawn amser/rhan-amser, **na ffioedd hyfforddiant**, ond bydd ystyriaeth yn cael ei roi i eitemau unigryw a fydd yn galluogi unigolion i ddatblygu eu medrau mewn maes arbennig.
6. Dylai cais unigolyn gynnwys llythyr o gefnogaeth oddi wrth diwtor ysgol/ coleg a'u Corff Llywodraethol Chwaraeon.
7. Dylid anfon unrhyw wybodaeth gefndir bellach a allai fod o gymorth i'r Pwyllgor Rhagoriaeth asesu'r cais, efo'r ffurflen gais wedi ei chwblhau.
8. Yr unig geisiadau dilys fydd ceisiadau ar y ffurflen a ddarperir, ac ni chaniateir lobio Aelodau Pwyllgor y Gronfa Ragoriaeth.
9. Dim ond i'r pwrpas a nodir ar y ffurflen gais y gellir defnyddio'r grantiau, ac nid ydynt yn cael eu hadolygu o gwbl yn ystod y flwyddyn.
10. Mae'r Awdurdod yn disgwyl i unigolion gydnabod unrhyw gymorth ariannol a ddyfernir gan y Cyngor mewn unrhyw hysbysebion neu lenyddiaeth a ddarperir.
11. Mae gan yr Awdurdod yr hawl i adfer unrhyw grant nad ydyw wedi cael ei wario.



Gellir defnyddio'r gronfa ar gyfer yr amcanion canlynol:

- ❖ **Datblygu addysg** (nid ffioedd cwrs neu ffioedd hyfforddi)
- ❖ Grantiau
- ❖ y caiff y grant ei ddefnyddio i ddatblygu ymhellach sgiliau penodol/ymarferol yr ymgeisydd yn eu maes astudiaeth
- ❖ na chaiff y grant ei ddefnyddio ar gyfer ffioedd addysgu cysylltiedig â chwrs llawn amser/rhan amser penodol
- ❖ na chaiff y grant ei ddefnyddio i adnoddau dysgu sylfaenol sydd fel arfer yn gysylltiedig â chwrs penodol
- ❖ na chaiff y grant ei ddefnyddio i ariannu profiad addysgol y gellid ei gael mewn lleoliad amgen sy'n nes at gartref yr ymgeisydd ac yn costio cryn dipyn yn llai
- ❖ Na chaiff y grant ei ddefnyddio ar gyfer caledwedd/meddalwedd TGCh y gellid ei ddefnyddio ar gyfer math arall o ddysgu/ddefnydd
- ❖ Na chaiff y grant ei ddefnyddio i brynu offer a fyddai yna'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pwrpasau proffesiynol nad ydynt yn gysylltiedig â'r maes penodol.
- ❖ Na chaiff y grant ei ddefnyddio i gefnogi profiadau Gwasanaethau Gwirfoddol
- ❖ Na chaiff y grant ei ddefnyddio i gefnogi trefniadau ar gyfer mynychu/cefnogi cyfweliadau.

- ❖ **Datblygu gwybodaeth a gwerthfawrogiad o'r celfyddydau**
- ❖ Grantiau
- ❖ Y caiff y grant ei ddefnyddio i ddatblygu ymhellach sgiliau penodol/ymarferol yr ymgeisydd yn eu maes astudiaeth
- ❖ na chaiff y grant ei ddefnyddio ar gyfer ffioedd addysgu cysylltiedig â chwrs llawn amser/rhan-amser penodol
- ❖ na chaiff y grant ei ddefnyddio ar gyfer adnoddau dysgu sylfaenol sydd fel arfer yn gysylltiedig â chwrs penodol
- ❖ na chaiff y grant ei ddefnyddio i ariannu profiad addysgol y gellid ei gael mewn lleoliad amgen sy'n nes at gartref yr ymgeisydd ac yn costio'n sylweddol llai
- ❖ na chaiff y grant ei ddefnyddio ar gyfer caledwedd/meddalwedd TGCh y gellid ei ddefnyddio ar gyfer math arall o ddysgu/ddefnydd
- ❖ na chaiff y grant ei ddefnyddio i brynu offer a fyddai yna'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pwrpasau proffesiynol nad ydynt yn gysylltiedig â'r maes penodol.
- ❖ na chaiff y grant ei ddefnyddio i gefnogi profiadau Gwasanaethau Gwirfoddol
- ❖ na chaiff y grant ei ddefnyddio i gefnogi trefniadau ar gyfer mynychu/cefnogi cyfweliadau.

- ❖ **Datblygu unigolion sy'n ceisio Rhagoriaeth Chwaraeon.**
- ❖ Y caiff y grant ei ddefnyddio i ddatblygu ymhellach sgiliau penodol/ymarferol y chwaraewr/aig yn eu maes gweithgaredd

Os hoffech gymorth pellach ynglŷn â'r uchod, cysylltwch â
 Caroline Jones, Swyddog Datblygu Hamdden (Ffôn 01492 575557)
 Julie Meehan, Swyddog Celf Mynegiannol (Ffôn 01492 575086).

Mae gan y Cyngor bolisi dwyieithrwydd, ac mae rhan ohono yn annog unigolion sy'n derbyn cymorth ariannol, grantiau, etc gan y Cyngor i ddarparu eu gwasanaethau neu eu gweithgareddau yn ddwyieithog cyn belled ag y bo hynny'n bosibl. Gellir cael cyngor ar arweiniad ar ddwyieithrwydd gan Swyddog Iaith Gymraeg y Cyngor ar (01492) 576079.